# PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL

**DYDD MERCHER, 18EG GORFFENNAF, 2018**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.A.L. Evans [Cadeirydd]

**Y Cynghorwyr:**
G. Davies

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

| | | |
|---|---|---|
| Mr S. Pilliner | - | Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth |
| Mr A. John | - | Cyfreithiwr Cynorthwyol |
| Ms L. McFarlane | - | Swyddog Polisi a Datblygu Teithio Dysgwyr |
| Mrs S. Williams | - | Uwch Swyddog Trefniant Ysgolion |
| Mrs M. Evans Thomas | - | Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ystafell Pwyllgor 2, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin : 3.00 p.m. - 3.05 p.m.**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd C.J. Harris.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 4. I YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD LS YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL

**Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 3 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.**

Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol oedd yn ymwneud â'r ymgeisydd. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, fodd bynnag, wrth ystyried pob dim, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, am fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd a'i deulu/a'i theulu.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr Aelod Lleol, y Cynghorydd C.J.Harris, wedi ymddiheuro nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw. Roedd wedi gofyn a fyddai modd gohirio ystyried yr apêl tan y cyfarfod nesaf er mwyn rhoi'r cyfle iddo ddod i'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried yr apêl a gyflwynwyd gan L.S tan y cyfarfod nesaf.**

________________________________ ________________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**